



YSGOL DYFFRYN CONWY

Pennaeth/Head : Mr Paul G. S. Matthews-Jones
e-bost/e-mail : cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk
www.ysgoldyffrynconwy.org



Annwyl Rieni/Gwarcheidwad,

Hoffwn ddyuno yn dda i chi a'ch plentyn dros y gwyliau Haf. Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn un prysur a llwyddiannus iawn i'r ysgol - diolch yn fawr i chi am eich holl gefnogaeth. Diolch yn fawr yn benodol i chi am eich cefnogaeth i'r wythnos weithgareddau diweddar ac i'r cerdded nodedig yn ystod yr wythnos. Hoffwn longyfarch y disgyblion am eu ymddygiad gwych yn ystod yr wythnos – bu canmoliaeth gan llawer o'n partneriaid yn ystod yr wythnos. Bydd Y Bont 2014 yn dangos yn llawn yr holl weithgarwch sydd wedi digwydd gan ein disgyblion a'n staff dros y flwyddyn ddiwethaf. Wrth dynnu at ei gilydd Y Bont ar gyfer 2014 byddwn hefyd yn diweddarau'r wefan efo rhai o'n llwyddiannau a gweithgareddau mwyaf diweddar.

Hoffwn ddiolch i chi yn benodol am eich cefnogaeth i wella presenoldeb a phrydlondeb disgyblion a gofyn i chi ein cefnogi ni unwaith eto'r flwyddyn nesaf wrth barhau i wella presenoldeb dros amser - mi fydd hyn yn un o'n blaenoriaethau yn y Cynllun Gwella Ysgol ar gyfer 2014/15. Bydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi ar y wefan yn fuan tymor nesaf.

Gofynnwn hefyd am barhad yn eich cefnogaeth ar gyfer sicrhau fod ein disgyblion yn y wisg ysgol gywir o Fedi 2014 ymlaen - atodaf gopi cyfredol o'r polisi gwisg ysgol er gwybodaeth.

Hoffwn gadarnhau dyddiadau cychwyn tymor yr Hydref:

HMS 1/9/14 a 2/9/14

Ysgol yn cychwyn i ddisgyblion: 3/9/14.

Bydd HMS pellach yn cael eu cynnal ar y 10/10/14 a 5/1/15.

Mae calendr y flwyddyn wedi ei ddiweddarau ar ffurf drafft a bydd ar y safwe yn ystod y dyddiadau nesaf. Byddwn yn ei ddiweddarau yn derfynol ar ddechrau'r tymor gan nodi dyddiadau adroddiadau yn llawn.

Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol blwyddyn 7-9:

Ar ddechrau'r wythnos daeth gohebiaeth gan y Llywodraeth am adrodd ar y profion darllen a rhifedd cenedlaethol, yn ymddiheuro fod eu hamserlen wedi llithro unwaith eto eleni. O ganlyniad byddwn yn rhannu'r adroddiadau profion ynghyd a gwybodaeth bellach am y canlyniadau **ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf**. Bydd cyfarfod gwybodaeth yn cael ei drefnu yn ystod mis Medi ar gyfer rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am y profion a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd cysylltiedig. Rydym yn disgwyl gwybodaeth bellach dros yr wythnosau nesaf a byddwn yn diweddarau'r wefan yn sgil hynny.

Edrychaf ymlaen at gydweithio efo chi fel Pennaeth Mewn Gofal o Fedi'r 1af 2014 ac at flwyddyn lwyddiannus arall i'r ysgol yn 2014/15.

Yn gywir

Elan Wyn Davies
Pennaeth Mewn Gofal, Medi 2014